

Canllawiau ar indemniad ac yswiriant proffesiynol

Rhaid i weithwyr proffesiynol deintyddol gael indemniad neu yswiriant priodol ar waith

Mae'n bwysig y gall cleifion gael iawndal os aiff rhywbeth o'i le. Dyma pam ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod rhaid i bob gweithiwr proffesiynol deintyddol gael indemniad neu yswiriant priodol yn ei le erbyn iddyn nhw ddechrau ymarfer. Yswiriant priodol yw yswiriant a fydd, os bydd hawliad llwyddiannus, yn digolledu claf sy'n dioddef niwed. Dylai fod gennych yswiriant yn ei le ar draws eich cwrdd ymarfer cyfan. Dylid ceisio rhagor o gymorth neu gyngor ynghylch yswiriant priodol i chi yn uniongyrchol gan gynghorydd annibynnol.

Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau i'w cleifion, cyfrifoldeb pob gweithiwr proffesiynol deintyddol yw sicrhau bod ganddynt yswiriant priodol. Mae hefyd yn gyfrifoldeb ar weithwyr deintyddol proffesiynol unigol i ddatgelu pob mater perthnasol ar adeg trefnu'r yswiriant, i gydymffurfio â thelerau ac amodau eu hyswiriant ac i gydweithredu â phrosesau rheoli hawliadau.

Dewis eich indemniad neu yswiriant

Rydym yn argymhell yn gryf bod gweithwyr proffesiynol deintyddol yn ystyried manteision ac anfanteision y gwahanol fathau a chyfuniadau o yswiriant sydd ar gael iddynt.

Gallai hyn gynnwys lefel y cymorth y mae darparwyr yn ei gynnig i weithwyr deintyddol proffesiynol, y tu hwnt i sicrhau bod atebolrwydd i gleifion wedi'i gynnwys, pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, a'r risg weddilliol sy'n gysylltiedig â phob model o indemniad ac yswiriant o ran talu allan os bydd hawliad llwyddiannus. Nid oes rhestr wirio bendant o feysydd y mae angen i chi sicrhau eu bod wedi'u hyswiro, gan y dylai eich indemniad neu'ch yswiriant gael ei deilwra i'ch ymarfer a'ch anghenion penodol.

Sicrhau y gall eich cleifion hawlio iawndal

Gall y math o yswiriant a ddewiswch fod yn bolisi yswiriant, yn drefniant indemniad, neu gyfuniad o'r ddau. P'un a oes gennych eich cynilion neu fuddsoddiadau personol eich hun ai peidio, mae'n rhaid i chi gael trefniadau indemniad neu yswiriant ar waith o hyd i dalu am unrhyw hawliadau.

Rhaid i'ch yswiriant sicrhau y gellir digolledu cleifion os bydd hawliad yn llwyddiannus. Rhaid i chi adolygu eich yswiriant yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn berthnasol ar draws yr holl dasgau a mathau o ymarfer rydych chi'n eu gwneud, y lleoliadau lle rydych chi'n gweithio ac ar gyfer yr oriau rydych chi'n eu gweithio, fel bod cleifion wedi'u diogelu'n ddigonol. Os ydych chi'n gweithio mewn gwlad arall yn ogystal â'r DU, bydd angen i chi gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y canllawiau hyn yn ogystal ag unrhyw ofynion ar gyfer y wlad rydych chi'n gweithio ynddi. Yn ogystal, efallai bod gan gynhyrchion derfynau awdurdodaethol ac ni ddylech ddibynnu ar yswiriant a geir gan ddarparwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU ar gyfer eich ymarfer yma, na thybio y bydd eich polisi yn y DU yn eich yswirio am unrhyw waith a wneir dramor.

Gwneud datganiad a darparu manylion eich yswiriant i'r GDC

Pan fyddwch chi'n cofrestru, yn adnewyddu, neu'n adfer eich cofrestrriad fel gweithiwr deintyddol proffesiynol, gofynnir i chi ddatgan bod gennych chi, neu y bydd gennych chi, yswiriant ar waith cyn i chi ddechrau gweithio fel gweithiwr deintyddol proffesiynol. Fel arfer dim ond ar y pwyntiau hyn y bydd gofyn i chi wneud y datganiad, fodd bynnag, mae gan y GDC yr hawl i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch eich yswiriant ar unrhyw adeg. Mae'n arfer rheolaidd i'r GDC ofyn i chi ddarparu manylion eich yswiriant os ydych chi'n destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.

Mathau o yswiriant

Dylech ystyried eich sefyllfa a defnyddio eich barn i benderfynu pa fath o yswiriant sydd orau i chi, cyn belled â'i fod yn caniatáu i glaf dderbyn iawndal am unrhyw golled neu niwed y maent yn ei ddioddef. Siaradwch â chynghorydd, eich cyflogwr, neu'ch cymdeithas broffesiynol i gael arweiniad ar lefel yr yswiriant y gallai fod ei angen arnoch.

Yswiriant personol

Mae amrywiaeth o gynhyrchion indemniad ac yswiriant personol ar gael yn y DU. Yswiriant personol yw pan fydd y polisi yn eich enw chi, yn hytrach nag yn enw eich cyflogwr neu'r GIG. Gallwch gael yswiriant personol gan indemnwyr neu ddarparwyr yswiriant, ac efallai y bydd rhai cymdeithasau proffesiynol yn cynnig yswiriant gan sefydliad trydydd parti fel rhan o'ch aelodaeth.

Gall yr yswiriant sydd ar gael amrywio ar draws indemnwyr a chwmnïau yswiriant unigol. Isod mae rhai enghreifftiau o'r hyn y mae indemnwyr a chwmnïau yswiriant fel arfer yn ei ddarparu, fodd bynnag efallai na fydd hyn yn wir am bob darparwr, gan y gall rhai gynnig ystod ehangach o gynhyrchion.

- Mae indemnwyr fel arfer yn cynnig yswiriant ar sail digwyddiad, yn seiliedig ar eich perthynas â nhw ar yr adeg y digwyddodd y digwyddiad. Mae hyn yn golygu, os oeddech chi'n aelod ar adeg y digwyddiad niweidiol, gallwch chi wneud cais am gymorth ar unrhyw adeg, hyd yn oed os nad ydych chi'n aelod mwyach.
- Mae cynhyrchion yswiriant masnachol fel arfer yn darparu lefel benodol o yswiriant ar gyfer amgylchiadau penodol, ar sail hawliadau a wneir. Fel arfer, dim ond hawliadau sy'n codi pan fydd y polisi'n weithredol y mae polisiâu hawliadau a wneir yn eu cynnwys. Mae hyn yn golygu y bydd angen fel arfer i chi gymryd yswiriant dirwyn i ben ar gyfer unrhyw hawliadau yn y dyfodol a wneir ar ôl i'ch polisi ddod i ben. Yn aml, mae cynhyrchion hawliadau a wneir yn cynnwys gofynion i ddeiliaid polisiâu hysbysu'r darparwr am ddigwyddiadau a allai arwain at hawliad, ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r rhain.

Ni waeth pa fath o bolisi sydd gennych, rhaid i chi gydymffurfio â thelerau ac amodau eich yswiriant. Eich cyfrifoldeb chi fel gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig yw sicrhau nad yw eich gweithredoedd neu anweithredoedd yn gwneud yr yswiriant sydd ar waith yn annilys. Gall methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau eich polisi olygu na fydd cleifion yn gallu derbyn iawndal.

Os ydych chi'n gyflogwr neu'n bennaeth practis, efallai yr hoffech ystyried a yw'ch polisi yn eich diogelu'n ddigonol rhag ofn y bydd hawliad. Yn ogystal â'ch atebolrwyddau personol, efallai y byddwch yn ddarostyngedig i ddyletswydd gofal na ellir ei dirprwyo i gleifion sy'n cael eu trin yn eich practis gan eich gweithwyr, hyfforddeion, neu weithwyr cyswllt. Gallai hyn hefyd olygu eich bod yn atebol yn ddirprwyol pe bai hawliad yn cael ei wneud yn erbyn y rhai sy'n gweithio yn eich practis.

Cynlluniau sy'n seiliedig ar gyflogwyr

Efallai bod gan eich cyflogwr bolisi sy'n rhoi yswiriant i chi, ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi'ch diogelu ar gyfer yr holl dasgau rydych chi'n eu gwneud, y lleoliadau lle rydych chi'n gweithio a'r oriau rydych chi'n eu gweithio. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch cyflogwr am gopi o'r polisi a'i gadw ar gyfer eich cofnodion. Peidiwch â thybio bod yswiriant gennych.

Yn bwysicaf oll, rhaid i bolisi'r cyflogwr ddarparu yswiriant sy'n amddiffyn cleifion os bydd hawliad yn llwyddiannus, felly gwiriwch beth mae polisi eich cyflogwr yn ei gynnwys yn benodol. Efallai na fydd yn rhoi yswiriant i chi os bydd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, felly byddai angen i chi gymryd yswiriant ychwanegol os ydych chi am gael y math hwn o gymorth.

Mae yswiriant indemniad neu yswiriant proffesiynol yn wahanol i yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ac ni fyddant yn cael eu darparu gan y rhain.

Indemniad y GIG neu'r 'Goron'

Os ydych chi'n cael eich cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban, neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC) Gogledd Iwerddon, mae'n debygol y bydd eich yswiriant indemniad yn cael ei ddarparu trwy gynllun esgeulustod clinigol.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau pwysig yn y math hwn o yswiriant, gan nad yw'n berthnasol i bob maes ymarfer. Dim ond am y gwaith a wnewch o dan delerau eich cyflogaeth gyda'r GIG neu'r HSC y byddwch wedi'ch yswirio, felly ni fyddwch wedi'ch yswirio ar gyfer unrhyw bractis preifat, ac efallai ni fyddwch wedi'ch yswirio am ddarparu gofal deintyddol y GIG mewn practis deintyddol gofal sylfaenol.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych chi yswiriant ar gyfer pob agwedd ar eich ymarfer ym mhob lleoliad a dylech chi sicrhau bod gennych chi yswiriant ychwanegol os yw unrhyw ran o'ch gwaith y tu allan i gwmpas indemniad y GIG neu'r Goron. Nid yw'r cynlluniau hyn yn rhoi yswiriant i chi os bydd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, felly byddai angen i chi gymryd yswiriant ychwanegol os ydych chi am gael y math hwn o gymorth.

Pan nad oes angen indemniad na yswiriant

Dim ond nifer fach iawn o weithwyr deintyddol proffesiynol nad oes angen unrhyw indemniad nac yswiriant arnynt.

Mae angen i chi gael yswiriant oni bai eich bod yn gweithio'n gyfan gwbl mewn rolau nad ydynt yn cynnwys ymarfer deintyddiaeth ac nad oes gennych unrhyw ryngweithio â chleifion o fewn y rolau hyn. Lle byddwch chi'n rhyngweithio'n anuniongyrchol â chleifion, fel darparu goruchwyliaeth glinigol i fyfyrwyr, gosod dyfeisiau deintyddol fel rhan o dîm, neu o fewn rôl iechyd y cyhoedd deintyddol, bydd angen yswiriant arnoch chi.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i fyfyrwyr cyn-gofrestru a gweithwyr deintyddol proffesiynol dan hyfforddiant gael yswiriant indemniad nac yswiriant personol. Fodd bynnag, os ydych chi'n gyfrifol am fyfyrwyr a hyfforddeion sy'n gweld cleifion rhaid i chi sicrhau bod yswiriant priodol ar waith.

Os ydych chi'n dechnegydd deintyddol nad ydych yn cael cysylltiad uniongyrchol â chleifion, efallai y byddwch chi wedi'ch cynnwys mewn polisïau gweithle, fel yswiriant atebolrwydd cynnyrch. Fodd bynnag, efallai na fydd polisïau o'r fath yn eich yswirio yn achos ymchwiliad addasrwydd i ymarfer neu ar gyfer unrhyw weithgareddau lle rydych chi'n gweld cleifion fel atgyweirio dyfeisiau neu fel rhan o dîm sy'n darparu gofal uniongyrchol i gleifion.

Os byddwch chi'n ymddeol, neu os ydych chi'n gweithio dim ond mewn rolau nad oes angen yswiriant ar eu cyfer, yn cymryd seibiant o ymarfer, neu'n newid darparwyr indemniad neu yswiriant, bydd angen i chi sicrhau o hyd bod gennych chi yswiriant priodol ar gyfer eich rolau ymarfer blaenorol. Os oedd eich polisi yn bolisi a hawliadau a wneir, rhaid i chi sicrhau eich bod yn sicrhau yswiriant 'dirwyn i ben' priodol. Mae hyn er mwyn galluogi cleifion i gael eu digolledu yn erbyn digwyddiadau a wedi mynd heibio. ddigwyddodd tra roeddech chi'n dal i ymarfer o dan bolisi blaenorol, gan gynnwys pan fydd rhai blynyddoedd wedi mynd heibio.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, a'ch bod yn ailddechrau gwaith clinigol a darparu gwasanaethau i gleifion, bydd angen i chi sicrhau yswiriant priodol.

Cyflawni eich cyfrifoldebau proffesiynol

Mae sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu a'u digolledu (pan fo'n briodol) yn allweddol i sicrhau bod ymddiriedaeth yn y proffesiynau deintyddol yn cael ei chynnal. Fel gweithiwr proffesiynol deintyddol, **rhaid i chi:**

- ☐ Cael eich yswiriant eich hun oni bai eich bod yn siŵr bod pob agwedd ar eich ymarfer wedi'i chynnwys mewn trefniant a wnaed gan eich cyflogwr.
- ☐ Gwneud yn siŵr eich bod yn deall cwmpas a chyfyngiadau'r yswiriant a ddarperir gan eich cyflogwr.
- ☐ Gwirio bod eich yswiriant yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl dasgau rydych chi'n eu gwneud, a'r meysydd ymarfer rydych chi'n gweithio ynddynt, gan gynnwys y lleoliadau lle rydych chi'n gweithio a'r oriau rydych chi'n gweithio.
- ☐ Gwneud yn siŵr bod gennych yr yswiriant cywir yn ei le ar yr adeg y byddwch yn gwneud newidiadau i'ch ymarfer.
- ☐ Cydymffurfio â thelerau ac amodau'r polisïau sydd gennych, gan gynnwys unrhyw brosesau rheoli hawliadau.
- ☐ Os nad oes gennych chi indemniad neu yswiriant priodol ar waith ar gyfer y gwaith rydych chi'n ei wneud - stopiwch ymarfer.
- ☐ Cydweithio â chleifion, eu cynrychiolwyr cyfreithiol, a'ch darparwr indemniad neu yswiriant os bydd hawliad yn cael ei wneud.

Cwestiynau i'w hystyried wrth drefnu eich yswiriant

1. A fydd y cynnyrch hwn yn sicrhau y gallaf fodloni unrhyw rwymedigaethau i gleifion yn dilyn hawliad llwyddiannus? Os na, pa gynhyrchion amgen neu ychwanegol y gallai fod eu hangen arnaf i gyflawni fy rhwymedigaethau i gleifion?
2. A fydd y cynnyrch hwn yn cynnwys yr holl dasgau rwy'n eu gwneud, y lleoliadau lle rwy'n gweithio a'r oriau rwy'n eu gweithio?
3. Beth yw cyfyngiadau ariannol neu gyfyngiadau eraill y cynnyrch hwn?
4. A yw lefel ariannol yr yswiriant yn ddigonol mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'm hymarfer proffesiynol unigol?
5. A yw'r cynnyrch yn yswiriant sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau neu hawliadau a wneir? Os gwneir hawliad ar ôl i'r polisi ddod i ben, a fydd y claf yn dal i allu derbyn iawndal os yw'r hawliad yn llwyddiannus?
6. Pa gymorth a ddarperir mewn achosion disgyblu neu addasrwydd i ymarfer neu faterion eraill nad ydynt yn ymwneud â hawliadau?
7. A yw'r cynnyrch yn rhoi tawelwch meddwl i mi fod fy atebolrwydd ariannol personol wedi'i ddiogelu?
8. Pa delerau ac amodau y mae'n rhaid eu dilyn? A ydw i'n hyderus y gallaf ac y byddaf yn cydymffurfio â'r rhain?
9. Beth ddylwn i ei wneud os bydd fy amgylchiadau'n newid (e.e. newidiadau i gwmpas fy ymarfer, ymgymryd â thasgau newydd, newid mewn oriau gwaith, newid i rôl anghlinigol)?
10. A yw'r darparwr yn cynnig gwasanaethau cymorth a chynghor, gan gynnwys cynghor

cyfreithiol a chymorth llesiant, fel rhan o'r yswiriant hwn?

11. Os ydw i'n gyfrifol am fyfyrwyr neu hyfforddeion, a fydd y cynnyrch hwn yn rhoi yswiriant priodol i mi?
12. Os ydw i'n cyflogi gweithwyr proffesiynol deintyddol neu'n berchen ar bractis deintyddol, a yw fy mholisi yn cwmpasu unrhyw ddyletswydd gofal neu atebolrwydd dirprwyol na ellir eu dirprwyo?

Sail gyfreithiol ar gyfer canllawiau

Mae'r gofyniad i ddal yswiriant indemniad wedi'i osod gan adran 26A o'r Ddeddf Deintyddion ar gyfer deintyddion a chan adran 36L ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol (er bod y gofyniad yr un fath ar gyfer y ddau grŵp). Mae'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth o yswiriant i'r GDC wedi'i nodi yng Ngorchymyn Cyngor Rheolau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) (Deintyddion a Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol) 2015.

CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL

37 Stryd Wimpole, Llundain W1G 8DQ

020 7167 6000

information@gdc-uk.org

www.gdc-uk.org